# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Tachwedd 2022 - Cyfrol 8- Rhifyn 2

## Yn angof ni chânt fod




Dyddiad Sul y Cofio eleni yw 13 Tachwedd ac yn ôl yr arfer, byddwn yn coffáu'r rhai a gollodd eu bywyd yn amddiffyn ein gwlad. Eleni, 40 mlynedd ers Gwrthdaro Ynysoedd Falkland, roeddem yn meddwl ei bod yn briodol cofio milwr lleol, y Gwarchodfilwr Peter Edwards, a fu farw yn 19 oed yn ystod y gwrthdaro.

Roedd y Gwarchodfilwr Edwards, o Fataliwn 1af y Gwarchodlu Cymreig, ar fwrdd llong y llynges gynorthwyol frenhinol *Sir Galahad* yn Bluff Cove pan gafodd ei bomio gan lu awyr yr Ariannin ar 8 Mehefin 1982. Bu farw ar fwrdd y llong, ynghyd â 47 o filwyr ac aelodau eraill ei chriw. Ni chafwyd hyd i gorff Peter. Cafodd y llong gymaint o ddifrod, roedd yn rhaid ei thynnu allan i'r môr a'i suddo fel bedd rhyfel.



*Cofeb y Gwarchodfilwr Peter Edwards yn Ysgol Bryn Clwyd*

Mae cofeb ar Ynysoedd Falkland i goffáu'r rhai a fu farw yn y gwrthdaro ac mae teuluoedd yn gallu ymweld â hi (llun uchod). Mae chwiorydd Peter wedi ymweld â'r gofeb ac wedi gosod blodau yno er cof amdano, ac maen nhw wedi dweud bod hyn wedi eu helpu i deimlo'n agos ato.

Mae'r gofeb hon mor bell, mae'n rhaid bod cofebion lleol, fel yr un yn ei hen ysgol, Bryn Clwyd, yn help mawr i gysuro teuluoedd nad yw eu hanwyliaid wedi'u hanghofio.

Mae plant Ysgol Bryn Clwyd yn gwybod pob dim am Peter ac, eleni, i goffáu 40 mlynedd ers ei farwolaeth, bu teyrnged ryfeddol iddo pan reidiodd criw o 40 o feicwyr modur i fuarth yr ysgol yn ystod eu taith o amgylch pob cofeb yng Nghymru. Roedd yn deyrnged deimladwy ac ysbrydoledig ac yn adlewyrchiad cywir o'r dywediad: 'Yn angof ni chânt fod'.

# Pytiau newyddion y pentre

Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth Einion Roberts, a fu'n byw gyda'i deulu ym Mrynllys am flynyddoedd lawer.
Yn ŵr tawel, treuliodd Einion flynyddoedd olaf ei yrfa fel syrfëwr meintiau ym meysydd olew Libya. Roedd ei hanes am sut y bu'n rhaid iddo ddianc o Libya cyn cau'r ffiniau oherwydd gwrthdaro rhwng Hussain a Bush yn 2003 yn ddihareb.

Gan ei fod i ffwrdd efo'i waith am fisoedd ar y tro, roedd Einion gartref ar wyliau am gyfnod go lew. Gartref, ei brosiect olaf oedd y wal gerrig a adeiladodd i amddiffyn Brynllys – i gadw ceir a oedd yn methu'r gornel allan o'i ardd. Mewn gwirionedd fe gymerodd hi gryn dipyn o amser iddo godi'r wal a chafodd dipyn o dynnu coes gan ei gylch agos o ffrindiau. Ymateb Einion oedd, 'Pan fydd y wal wedi'i gorffen, fydd neb yn gofyn, "Faint o amser gymerodd hynny?" Byddan nhw'n dweud pa mor dda yw hi ac yn gofyn pwy oedd wedi'i chodi.' Ymateb nodweddiadol gan ŵr hynod ffraeth!

Ar ôl iddo ymddeol – aeth o ddim yn ôl i Libya – ymdaflodd Einion ei hun i ofalu am ei dyddyn eto. I gael llaeth ffres, prynodd fuwch Jersey fach. Doedd dim amser godro rheolaidd, dim ond pan oedd y jwg yn wag. Byddai'n cydio yn ei stôl odro ac yn gofyn i'r fuwch sefyll yn llonydd tra byddai'n llenwi'r jwg!

Trist hefyd oedd clywed am farwolaeth sydyn Mr William (Bill) Fowlie yn ddiweddar. Er ei fod yn frodor o Ruthun, roedd Bill bob amser yn gefnogwr hael i foreau coffi'r pentref. Byddai'n ffonio'n aml i ddarganfod a oedd un ar y dydd Sadwrn yma ac at ba achos – ond doedd hyn ddim yn bwysig iawn gan ei fod fel arfer yn dod draw beth bynnag i brynu cacennau i'w deulu a chael sgwrs. Roedd yn ddyn caredig a hael a byddwn yn gweld eisiau'r tynnu coes.

**Er cof am Bob Hall**
Cynhaliwyd sesiwn meic agored yn ddiweddar yn y Golden Lion er cof am Bob Hall. Diolch i Sam a Mark am gynnal y digwyddiad, a gododd £185 i Hosbis Tŷ'r Eos. Diolch yn fawr iawn hefyd i James a Will am ddarparu a gosod yr offer. Cafwyd eitemau gan 23 o berfformwyr yn ystod y prynhawn.

**Dymuniadau pen blwydd i…**
… **Chris Palin**, Maes Tyrnog, a ddathlodd ei phen blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.
… **Rod Williams**, Rhiwbebyll Isaf, a fydd yn cyrraedd yr un oedran mawreddog y mis hwn.

**Llongyfarchiadau i…**
… **Sally Cunliffe** ar basio prawf Sefydliad y Modurwyr Uwchraddol yn ddiweddar. Cawn hanes ei phrofiad yn y rhifyn nesaf o'r Llais.
...**Rhys Davies** ar gael ei benodi'n rheolwr ystadau'r Rhug, Corwen.
… **Elwyn a Barbara Salisbury**, a ddathlodd 70 mlynedd o briodas yn ddiweddar. Bydd llawer yn eu cofio o'r adeg y buon nhw'n byw yn Llandyrnog.




Ar ddydd Sadwrn, 8 Hydref, cynhaliodd Brownies Llandyrnog fore coffi yn Neuadd y Pentref i godi arian i'r uned. Trwy haelioni anhygoel pawb a gyfrannodd eitemau ac a ddaeth i wario ar y diwrnod, codwyd dros £380. Diolch yn fawr iawn am eich holl gyfraniadau a'ch cymorth. Karen, Jackie, Maria a'r Brownies.

# Yr Ystafelloedd Coco

| | |
|---|---|
| Mawrth 1 | Clwb Llyfrau 10am |
| Llun 7 | Trefoil Guild 2pm |
| Mawrth 15 | Clwb Llyfrau 10am |
| Mercher 16 | Tuesday Club 2pm |
| Mawrth 29 | Clwb Llyfrau 10am |
| | Pwyllgor *Llais Llandyrnog*, 7pm |

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Mawrth | 1 | Sefydliad y Merched 7 – 9pm |
| Sadwrn | 5 | Grŵp crefftau 9.30 – 4pm |
| Llun | 7 | Brownies, 5.30 – 7pm |
| | | Côr Nantclwyd, 7.30pm |
| Mercher | 9 | Undeb y Mamau 2 – 4pm |
| Sul | 13 | Llan Llanast 3.30 – 5pm |
| Llun | 14 | Brownies, 5.30 – 7pm |
| | | Côr Nantclwyd, 7.30pm |
| Sadwrn | 19 | Bore coffi (clefyd motor niwron), 10am |
| Llun | 21 | Brownies, 5.30 – 7pm |
| | | Côr Nantclwyd, 7.30pm |
| Sadwrn | 26 | Bore coffi: y Gymdeithas Hanes, 10am |
| Llun | 28 | Brownies, 5.30 – 7pm |
| | | Côr Nantclwyd, 7.30pm |

**Gwasanaethau mis Tachwedd yn eglwys St Tyrnog**

| | | |
|---|---|---|
| Sul 6 | 11.15 | Cymun bendigaid |
| Sul 13 | 10.50 | Gwasanaeth Sul y Cofio |
| | 3.30 | Llan Llanast (Neuadd y Pentre) |
| Sul 20 | 11.15 | Boreol weddi |
| | 3.30 | Gwasanaeth cofio a diolch am ein hanwyliaid |
| Sul 27 | 11.15 | Cymun Bendigaid |

# Sefydliad y Merched

Bydd cyfarfod yn Neuadd y Pentref nos Fawrth, 1 Tachwedd am 7pm. Y siaradwr fydd Jaqueline Le Fèvre ar y testun o ailgyflwyno *chimpanzees* i'r gwyllt. Croeso i ymwelwyr ac aelodau newydd.

**Carolyn Langford-Jones (Ysgrifenyddes)**

# Undeb y mamau

Yn ein cyfarfod ym mis Hydref buon ni'n pacio bocsys esgidiau ar gyfer Operation Christmas Child. Yr her gyntaf oedd rhoi'r blychau at ei gilydd, fel y gwelwch o'r llun! Cawsom lawer o hwyl yn cyfnewid eitemau a llenwi ein bocsys. Gobeithiwn y bydd y plant sy'n eu derbyn yn cael cymaint o hwyl yn eu hagor ag y cawson ni wrth eu pacio.

Mae croeso bob amser i aelodau newydd ymuno â ni. Rydym yn cyfarfod ar ail ddydd Mercher y mis am 2pm yn y Neuadd y Pentref.




Prompt Travel
Taxi & Private Hire
4, 8 & 16-seat vehicles
24 hrs 7 days a week
Incorporating Vale Private Hire
01824 790485
07974 862027
Teithiau Prydlon
Tacsi a Hurio Preifat

# Rysáit

**Cawl pwmpen**
Rydych chi wedi gwneud eich llusernau Calan Gaeaf ond beth wnewch chi gyda gweddill y bwmpen? Mae cawl yn beth maethlon, cynnes a hawdd i'w wneud. Gallwch ddefnyddio unrhyw sgwash neu bwmpen ar gyfer y rysáit hon.

1 kg o gnawd pwmpen wedi'i dorri'n dalpiau (1 sgwash cnau menyn cyfan, gweddillion pwmpen heb hadau neu ychwanegwch foron os nad oes digon)
2 nionyn (wedi'u deisio)
1 ewin garlleg (wedi'i sleisio)
2 tsili coch (wedi'u torri a heb yr hadau)
850g o stoc llysiau
4 llwy fwrdd o *crème fraiche*
2 lwy fwrdd o olew
25g o fenyn

Cynheswch y popty i 200°C/180°C (ffan)/nwy 6. Rhowch gnawd y bwmpen (a'r moron os ydych chi'n eu defnyddio) mewn tun rhostio gydag 1 llwy fwrdd o olew a'i rostio am 30 munud. Yn y cyfamser toddwch y menyn ac 1 llwy fwrdd o olew (a fydd yn atal y menyn rhag llosgi) mewn sosban fawr iawn ar yr hob ac ychwanegwch y nionod, y garlleg a'r rhan fwyaf o'r tsilis.
Gorchuddiwch y sosban a choginiwch ei gynnwys am 15–20 munud ar wres isel iawn nes bod y nionod yn feddal.
Pan fydd cnawd y bwmpen wedi coginio, rhowch o yn y sosban gyda chymysgedd y nionod, y garlleg a'r tsili. Yna ychwanegwch y stoc a'r *crème fraiche*. Cymysgwch y cyfan gyda chymysgydd ffon – *stick blender* (neu gallwch ei wneud mewn prosesydd bwyd mewn sypiau, ei stwnsio gyda stwnsiwr tatws neu ei adael yn dalpiog os hoffech chi).
Cynheswch y cawl yn y sosban eto ac ychwanegwch halen a phupur fel y dymunwch.

Rhowch weddill y darnau tsili ar wyneb y cawl gorffenedig a'i weini gyda darnau o fara a rhagor o *crème fraiche* i'w droi i mewn iddo.

*Gwen Butler*

# Hwb Llandyrnog

Diolch i bawb a gefnogodd ein hymdrechion dros yr haf. Braf oedd gweld cymaint ohonoch o bob oed ac rydym yn bwriadu dychwelyd yn y gwanwyn.

Rydym wrth ein bodd bod Cymdeithas Chwaraeon Llandyrnog (LSA) wedi cael Grant Ynysu Cymdeithasol, a bydd rhywfaint ohono'n cael ei roi tuag at osod gwres yn y pafiliwn. Unwaith y bydd hwn wedi'i osod byddwn yn gallu dychwelyd, ond ar ffurf ychydig yn wahanol.

Fel 'Hwb Llandyrnog' rydym yn gobeithio y bydd digon o bobl yn fodlon gwirfoddoli i helpu am ddwy awr bob pythefnos ar yr ail a'r pedwerydd dydd Mercher o bob mis. Byddem wedyn yn gallu agor rhwng 10am a 4pm, gan gynnig diodydd poeth, byrbrydau, cawl a brechdanau. Rydym hefyd wedi cael caniatâd gan yr LSA i ddefnyddio ystafell newid y tîm oddi cartref fel man chwarae dan do i'r rhai bach.

Os ydych chi'n gallu helpu, cysylltwch â Carolyn Langford Jones drwy e-bost: clangfordjones@gmail.com, os gwelwch yn dda.

**Grant Ynysu Cymdeithasol CSD**

**CEFNOGI HWB LLANDYRNOG**

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Creu Cymunedau Cryf trwy Weithredu Gwirfoddol
Denbighshire Voluntary Services Council
Building Resilient Communities through Voluntary Action

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwinllan a roddwyd i'm gofal...

Mae llawer o'n darllenwyr yn gwybod bod Rhys a Gwen Davies wedi sefydlu gwinllan 4 erw yn Dre Goch Isaf, Bodfari dair blynedd yn ôl.

Mae'n rhaid bod hwn yn benderfyniad a newidiodd eu bywydau. Roedd yn golygu buddsoddiad sylweddol o ran cyfalaf ond hefyd yn fenter hynod lafur-ddwys a ddylai wobrwyo'r teulu yn dda am eu hymdrechion am flynyddoedd i ddod.

Heuwyd yr hedyn pan aeth Rhys i dderbyniad yn Sioe Frenhinol Cymru gan gwmni oedd yn gwerthu gwin o Brydain. Trwy hap a damwain roedd arbenigwr ar dyfu gwinwydd yno. Ar ôl trafod am ychydig, daeth i'r amlwg y gallai Dyffryn Clwyd fod yn addas i gynhyrchu gwin pe bai'r pridd, y draeniad a'r dirwedd yn addas. Mae'n bosibl i un cae fod yn addas, a'r un nesaf ato yn gwbl anaddas.

Trefnodd Rhys ymweliad â'r safle gan arbenigwr, a rhoddodd yntau sêl ei fendith ar y fenter.

Ar ôl trafod â nifer o arbenigwyr, penderfynwyd y byddai'r hinsawdd leol yn addas i dyfu gwinwydd Almaenig fel *pinot noir*.

Gyrrwyd JCB Fastrac mawr yr holl ffordd o'r Almaen gyda System Leoli Fyd-eang (GPS) arbenigol arni. Cloddiodd hwn ffosydd yn y cae a ddewiswyd, gyda'r GPS yn sicrhau bod y gwinwydd yn cael eu plannu mewn rhesi syth a'r pellter cywir oddi wrth ei gilydd.

Dim ond y dasg gyntaf oedd plannu. Bu'n rhaid codi pyst cynnal a gwifrau — roedd hon yn dasg anodd iawn gan fod angen sawl cilomedr o weiren i gynnal y gwinwydd ifanc.

A dyma ddiweddariad gan Rhys:

Yn mis Mehefin 2019 plannwyd bron i 8,000 o winwydd a sefydlwyd Gwinllan y Dyffryn. Roedden ni wedi ymchwilio i fathau o winwydd a fyddai yn ffynnu yn ein hinsawdd ac wedi cael cyngor da ar sut i'w sefydlu a'u rheoli. Dros y tair blynedd gyntaf, ein prif bwrpas oedd sefydlu'r gwinwydd yn llwyddiannus gan sicrhau bod gwreiddiau a choes dda yn datblygu.




Yn Hydref 2021, ar ôl 3 tymor o dyfu, roedd gennym gnwd da o rawnwin i'w gynaeafu a bum yn hynod ffodus o gael help ffrindiau, teulu a chymdogion gyda'r gwaith. Mae 6 math o rawnwin yma, 2 gwyn a 4 coch a byddwn yn creu hyd at 6 math gwahanol o win.

Erbyn hyn mae tri o'r gwinoedd wedi eu potelu a'u labelu a bellach ar werth, ac ar hyn o bryd rydymn ni'n dod at ddiwedd cynhaeaf 2022.

Rydyn ni hefyd yn cynnig profiadau a theithiau o amgylch y winllan gyda'r cyfle i flasu'r gwin.

Mae 'na rhywbeth newydd o hyd, ac am ragor o wybodaeth ac i gadw mewn cysylltiad, dilynwch a chysylltwch â ni drwy ein tudalen Facebook: 'Gwinllan y Dyffryn – Vale Vineyard'.



LLAN Llanast

Yn ein sesiwn ym mis Hydref buom yn dathlu'r Cynhaeaf, yn diolch i Dduw am yr holl bethau da sydd gennym, ac yn cofio nad yw pawb mor ffodus ag yr ydyn ni. Fe wnaethom ni ddysgu pa mor bwysig yw hi i rannu'r hyn sydd gennym â'r rhai sydd â llai na ni.

Gwnaethon ni fwgan brain bendigedig o'r enw Siencyn sydd bellach yn sefyll yn falch yn yr eglwys. Buom hefyd yn gwneud torchau cynhaeaf, addurniadau ar gyfer ffenestri, melinau gwynt, basgedi cynhaeaf, bwgan brain bach a matiau diod wedi'u haddurno â dail yr hydref.

Bydd ein sesiwn nesaf ar 13eg Tachwedd ac mae croeso cynnes i bawb.




# SMIDSY

Na, nid enw cath yw hwn. Dyma acronym sy'n adnabyddus yn y byd beicio modur – ymadrodd nad yw beiciwr byth eisiau ei glywed: 'Sorry mate, I didn't see you!'

Mae'r fersiwn diweddaraf o Reolau'r Ffordd Fawr (gweler gov.uk/the-highway-code/updates) bellach yn rhoi blaenoriaeth i gerddwyr, pobl sy'n reidio beic, ceffyl a beic modur ar y brig (yn y drefn honno) oherwydd eu bod yn agored i niwed. Plant, oedolion hŷn a phobl anabl sydd fwyaf mewn perygl. Mae gan y rhai sydd mewn ceir, faniau, bysiau a lorïau ddyletswydd i gadw llygad am y rhai sydd fwyaf bregus.

Fodd bynnag, mae angen i bawb ystyried eu diogelwch eu hunain. Ydych chi'n gwneud digon i gael eich gweld gan eraill? Mae'r nosweithiau yn tywyllu'n gynt ac yn gynt ac mae llawer yn cerdded neu'n beicio mewn dillad tywyll ar y lonydd o gwmpas Llandyrnog. Ydych chi'n cofio'r ymgyrch '*At night, wear white*'? Roedd hwn yn slogan mewn ymgyrch ddiogelwch ar y ffyrdd flynyddoedd yn ôl ac mae'n dal i fod yn wir.

Y dyddiau hyn, wrth gwrs, mae'n hawdd cael gafael ar fandiau braich, siacedi a gwregysau (a hyd yn oed coleri cŵn) sy'n llachar neu'n adlewyrchu golau, a byddai gwisgo'r rhain yn helpu'n aruthrol i gadw pobl yn ddiogel. Mae Rheolau'r Ffordd Fawr yn awgrymu bod gyrwyr sy'n defnyddio'u prif oleuadau yn gallu gweld deunydd sy'n adlewyrchu hyd at deirgwaith yn bellach oddi wrthyn nhw na deunydd sydd ddim yn adlewyrchu. Mae hyn yn rhoi mwy o amser iddyn nhw stopio neu fynd heibio i chi.

Mae'r llun isod yn dangos y gwahaniaeth mae gwisgo cot lachar yn ei wneud – mae'r plentyn yn ddau lun. Gofalu amdanon ni'n hunain yw'r ffordd orau i'n gwarchod. Cadwch yn ddiogel.



# Gair gan yr offeiriad

Ym mis Medi, trwy wahoddiad y *Joint Casualty and Compassionate Centre* (JCCC), cynrychiolais fy uned a theithio gydag eraill i Ffrainc a Gwlad Belg i ailgysegru pum bedd milwyr o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Roedden eu holion wedi bod yn anhysbys cyn hyn, ond erbyn hyn wedi'u hadnabod drwy wyddoniaeth. Gweddillion y Rhingyll Alexander Jones o Gatrawd Manceinion oedd y cyntaf i'w hailgysegru.

Am 10.30 y bore ar 13 Medi daethom ynghyd fel criw bach ym mynwent Dourlers, Ffrainc. Ger y senotaff cawson ni wasanaeth coffa byr yn dilyn marwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines ac esgyniad y Brenin Siarl III, cyn ymuno â'r cynulliad o'r Comisiwn Beddau Rhyfel a chynrychiolwyr eraill i anrhydeddu Rhingyll Jones.

Er ei fod yn y Manchester Regiment, ganwyd Rhingyll Jones ym Mhenmaenmawr yn 1880. Yn anffodus roedd car ei or-nai, a oedd i fod yn bresennol, wedi torri lawr ar ei ffordd. Ar ôl cael help iddo, aethom ag ef i fedd ei hen ewythr i osod torch a gweddïo cyn i ni gario fynd tuag at ein cyrchfan nesaf.

Ein cyrchfan nesaf oedd gwasanaeth ailgysegru'r Capten Arthur Lea Harris o Gatrawd Gogledd Sir Gaerhirfryn, am 10.30am ar 14 Medi ym Mynwent yr Awyren yng Ngwlad Belg. Roedd yn wasanaeth urddasol, gyda'i deulu yn bresennol. Cawsom dderbyniad gyda'r teulu wedyn a buon ni'n trefnu i arddangos rhai o arteffactau Capt. Harris mewn amgueddfa ger pencadlys yr uned yr wyf yn gysylltiedig â hi ym Mhrydain.

Dyma'r ddau wasanaeth a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â fy uned i, ac roedd y tri milwr arall sy'n hysbys bellach yn perthyn i uned y lleill a oedd gyda ni. Profiad anhygoel oedd dysgu am realiti'r Rhyfel Mawr a thalu teyrnged i'r rhai a fu farw. Roedd hyn yn arbennig o wir ym Mhorth Menin yn Ypres, Gwlad Belg. Am 8pm bob nos mae'r rhai a fu farw yn cael eu cofio. Mae nodau'r biwglwr yn atseinio o dan y bwa ac yn anrhydeddu'r



enwau hynny sydd wedi'u hysgythru ar y waliau o gwmpas.

Lle arwyddocaol arall oedd canolfan encil Gristnogol, gydag amgueddfa o'r enw Talbot House, lle gofynnwyd i filwyr a swyddogion i gyd adael eu rheng wrth y drws wrth ddod i mewn.

Wrth i ni gyrraedd mis Tachwedd, rydyn ni unwaith eto yn anrhydeddu pawb sydd wedi colli eu bywydau yn ystod erchyllterau rhyfel. Rydyn ni'n meddwl am y rhai yn yr Wcráin ac rydyn ni'n crio allan am heddwch, heddwch yn y byd. Edrychwn at Iesu, a'i fywyd a'i bwrpas oedd yr hunanaberth eithaf er lles pawb ohonom sy'n mynd i mewn i'r dirgelwch, y rhyfeddod, y parchedig ofn a'r gred anochel, ac yna i ffydd. Diolch i ti, Iesu, am ein tynnu ni yn nes at Dduw. Bydded i ysbryd tragwyddoldeb eich bendithio chi a'r rhai rydych chi yn eu caru drwy gydol mis Tachwedd.

*Martin Pritchard*
*Offeiriad Ardal Genhadu Dinbych*


**CARPET SALES & INSTALL**
**Home Choose Carpets**
**Quality Sampling Service**
**FREE Estimates**
**CARPET & RUG CLEANING**
**Call Andy**
**07900 907253**
**wetordrycarpetcleaning.com**



# Hanesion Hazel

Yn rhy fuan o lawer mae'r haf hir chwilboeth yn atgof pell ac mae'n bryd gwisgo'r siwmper fwy trwchus a het wlân. Mae'r nosweithiau tywyllach, oerfel a lleithder gyda niwl i'w weld yn drwchus ar hyd gwaelod y dyffryn yn y boreau sy'n dynodi'r hydref yma. Mae'n adeg o'r flwyddyn i ddail, concyrs a mes syrthio ac mae'n ymddangos ein bod wedi cael llawer iawn eleni. Ydy hi'n flwyddyn 'mast' neu'n flwyddyn eithriadol o dda ar gyfer mes? Daw 'mast' o'r hen air Saesneg 'maest' ac mae'n digwydd bob 3–10 mlynedd. Mae gan bob coeden hadau fel y sycamorwydden sydd â samara dwy adain wedi'i hadu ac sy'n ffurfio strwythur cyfarwydd fel hofrennydd sy'n hedfan i lawr i'r ddaear. Mae'n ffenomen naturiol pan fydd coed yn cynhyrchu cnydau mawr o hadau, nid yw'n hysbys pam mewn gwirionedd, ond bu llawer o ymchwil ac mae gwyddonwyr yn meddwl y gallai fod yn gysylltiedig â thywydd neu amodau hinsawdd, megis glawiad, tymheredd a gwyntoedd yn y gwanwyn yn effeithio ar beillio.

Ffrwyth/had y dderwen yw mes ac maen nhw wedi'u hamgáu mewn cragen galed yn swatio mewn cwpan siâp cwpan sy'n cael ei ollwng i'r llawr er mwyn i'r goeden atgynhyrchu. Fel plentyn roeddwn i'n arfer eu dychmygu fel cwpanau bach wedi'u ffurfio'n berffaith i dylwyth teg yfed allan ohonyn nhw. Nid yw coed derw yn dechrau cynhyrchu mes nes eu bod dros 30 oed. Ar ddiwedd yr 1980au penderfynodd fy nhad blannu coeden dderwen 'ar gyfer y dyfodol' cyhoeddodd un diwrnod. Credai y dylid cael coed newydd yn eu lle ac felly ar ddiwedd y padog mae sbesimen golygus iawn erbyn hyn. Dechreuodd gynhyrchu mes ychydig flynyddoedd yn ôl ac eleni mae yna lwythi. Rwy'n cofio helpu fy nhad i'w blannu; bu mor ofalus i'w gael yn y lle iawn gydag ymchwil manwl i'r lleoliad a chyda mynnu nad oedd y twll yn rhy fawr nac yn rhy fach. Bob ychydig ddyddiau fy ngwaith i oedd llenwi berfa â dŵr a cherdded yr holl ffordd i waelod y cae i'w ddyfrio, gan dipio'r cynnwys o amgylch y gwaelod. Yr holl ymroddiad hwnnw a oroesodd i'r goeden ifanc fawreddog ydyw heddiw. Rhaid i'r coed derw hŷn o'i amgylch sydd dros 100 oed ei ystyried yn faban neu'n newydd-ddyfodiad i'r ardal. Mae bellach yn rhoi cofeb fyw i fy nhad ac yn gynefin bendigedig i bob math o fywyd gwyllt. Mae'r cnau yn cynnwys llawer o egni a dyna pam mae anifeiliaid ac adar yn bwydo arnynt, mae'r canghennau'n darparu cysgod yn yr haf a'r gaeaf, ac rwy'n aros am y nyth cyntaf i gael ei adeiladu yn ei ganghennau.

Rwyf wedi sylwi i lawr Lôn Goch mae'r wiwerod i'w gweld yn hoff iawn o'r mes a phan fydd Bob y cob a minnau'n trotian heibio, maen nhw'n wyllt yn casglu eu cnau gwerthfawr ac yn sgrialu i fyny rhisgl y goeden agosaf gyda'u stôr. Rwy'n siŵr bod mwy nag y gall Mr Wiwer ei fwyta neu ei storio, bydd nifer sylweddol yn cael eu claddu i'w hadalw'n ddiweddarach a bydd y rhai sy'n mynd yn angof neu ar goll yn egino ac yn datblygu'n lasbrennau a derwen newydd yn cael ei geni. Mae haenen drwchus o fes ar Lôn Goch – roedd Bob y Cob yn meddwl tybed beth oedd yn crensian o dan ei garnau ac mae ganddyn nhw'r duedd annifyr honno i lansio ar do'r car wrth yrru oddi tano gan roi tipyn o sioc i chi.

Fel y dywedodd Koenig & Knops (2005) yn eu llyfr *The Mystery of Masting in Trees*:

"Peidiwch â chymryd mes yn ganiataol yr hydref nesaf, mae'r ffaith eu bod ym mhobman ac yn unman yn ôl yr achos yn dangos un o'r dirgelion ecolegol ysblennydd y byddwch yn dod ar eu traws wrth i chi gerdded drwy'r coed; mwynhewch nhw tra cewch y cyfle"

Felly mae'r Hydref yn bendant yma, amser i gael y gweill allan ac eistedd o flaen y llosgwr coed yn gwylio *Strictly Come Dancing* ar y teledu – arwydd arall o Hydref yn y byd modern.

*Hazel Wright*

# Ysgol Bryn Clwyd

Mae goleuadau LED wedi'u gosod ym mhob rhan o adeilad yr ysgol ac rydyn ni'n disgwyl cael paneli solar yn ystod y misoedd nesaf. Mae'r cyfan yn rhan o addewid Sir Ddinbych i leihau ôl troed carbon eu hysgolion ond mae hefyd yn gyfle gwych i'r plant ystyried dewisiadau mwy ecogyfeillgar a gweld ynni adnewyddadwy ar waith.

Cynhaliwyd Gwasanaeth y Cynhaeaf ddydd Gwener, 7fed Hydref, a chasglwyd bwydydd sych a thuniau i'w rhoi i fanciau bwyd lleol.

Daeth Cadeirydd y Llywodraethwyr i gwrdd â'r disgyblion yn ystod gwasanaeth i glywed beth maen nhw'n ei hoffi am yr ysgol a beth allai ei wneud hyd yn oed yn well. Mae'r pwyllgor disgyblion yn gweithio ar hyn drwy gydol y flwyddyn gan fod 'llais y disgybl' yn bwysig iawn ac mae eu barn yn cyrraedd corff llywodraethu'r ysgol.

**Y Dosbarth Iau**

Mae'r plant wedi bod yn astudio'r arfordir ac wedi cael trip i'r traeth. Cawson nhw hefyd ymweliad gan wirfoddolwr o'r RNLI a ddysgodd iddyn nhw sut i gadw'n ddiogel ar yr arfordir, ac am waith yr elusen.

Gan barhau â'r thema hon o'r môr cafodd y disgyblion ymweliad gan Mr Conry sy'n gweithio i Gyngor Conwy yn cynllunio amddiffynfeydd môr. Adeiladodd y plant fodelau o amddiffynfeydd môr gyda Mr Conry.

**Y Babanod**

Wrth barhau â'r prosiect ar ddeinosoriaid bu'r plant yn ymchwilio i'r hyn mae'n bosib ei ddysgu am ddeinosor o'i faw!

Wrth baratoi ar gyfer dathliad y cynhaeaf darllenodd y babanod stori 'Yr Iâr Fach Goch' a phobi eu bara eu hunain.

**I'ch dyddiaduron**

Cinio Nadolig Cymunedol – Dydd Iau 8 Rhagfyr
Marchnad Nadolig a chyngerdd carolau – Dydd Iau 15fed Rhagfyr







*Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Llandyrnog ar y llefaru i ddysgwyr*

# Cegin Newydd y Neuadd

Os ydych wedi bod yn rhan o fore coffi neu weithgaredd yn Neuadd y Pentref yn ddiweddar efallai eich bod wedi sylwi bod cegin newydd +ynddi. Roeddem yn ffodus i gael grant a helpodd i dalu amdano a gobeithio y byddwch yn ei weld yn welliant. Bellach mae popty mwy o faint yn y gegin, llawer o le mewn cypyrddau, a pheiriant golchi llestri. Os ydych chi erioed wedi bod yn golchi llestri mewn bore coffi, byddwch chi'n cofio bod hyd at eich penelinoedd mewn dŵr sebon sy'n oeri'n gyflym, yn ceisio ateb y galw am gwpanau glân… a'r foment ofnadwy honno pan oeddech chi'n methu dod o hyd i liain sychu llestri ymhlith y rhai soeglyd! Ni fydd hyn yn digwydd eto – bydd ein peiriant golchi llestri yn golchi ac yn sychu bore coffi cyfan mewn munudau. Rydym wedi buddsoddi mewn llestri newydd hefyd, diolch i Farchnad yr Wyddgrug. Rwy'n mawr obeithio y byddwch yn cymeradwyo.

*Gwen Butler*
*Cadeirydd Pwyllgor y Neuadd*




**Townsend Supplies**
**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**
**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks





Bydd wyres Wendy Grey Lloyd, Laura Williams, yn gapten tîm Prifysgol Bangor ar *University Challenge*. Mae'r bennod hon i fod i gael ei darlledu ar BBC 2 ddydd Llun, 14 Tachwedd (fel arfer am 8:30pm ond edrych ar amserlen ddiweddaraf y sianel).

Allan o restr hir o brifysgolion dim ond 35 sy'n cael eu dewis i fod ar y gyfres ac mae Bangor a Chaerdydd yn cael eu cynrychioli yn y gystadleuaeth eleni.

Mae Laura wedi gweithio'n galed iawn i sicrhau lle i astudio meddygaeth ym Mangor a dymunwn yn dda iddi.

Aeth Laura i Ysgol Glan Clwyd ac mae'n siarad Cymraeg yn rhugl. Mae hwn wrth gwrs yn gymhwyster ychwanegol ac yn dderbyniol iawn gyda'i chleifion Cymraeg eu hiaith y mae'n well ganddyn nhw gyfathrebu yn eu hiaith gyntaf.

Gan bawb yn Llandyrnog – pob lwc!

# Eisteddfod Gadeiriol Llandyrnog 2022

**LLENYDDIAETH**

Y Gadair: Elinor Wyn Griffiths, Llandyrnog.

**Blwyddyn 5 a 6:**

1 Cadi Elenna Jones, Ysgol Bro Cinmeirch
2 Megan Jones, Ysgol Bro Cinmeirch
3 Steffan Rhys Davies, Ysgol Bro Cinmeirch

**LLEFARU**

**Blwyddyn Derbyn ac iau:**

1 Medi Angharad Evans, Ysgol Penbarras

**Blwyddyn 1 a 2:**

1 Iago Edwards, Ysgol Penbarras

**Blwyddyn 3 a 4:**

1 Nansi Davies, Ysgol Pen Barras
2 Mabon Dafydd, Ysgol Penbarras

**Blwyddyn 5 a 6:**

1 Mati Nel, Ysgol Twm o'r Nant
2 Steffan Rhys Davies, Ysgol Bro Cinmeirch

**Blwyddyn 7 – 9:**

1 Malan Edwards, Ysgol Brynhyfryd
2 Efa Roberts, Ysgol Brynhyfryd

**LLEFARU I DDYSGWYR**

**Blwyddyn 1 a 2:**

1 Dominic, Ysgol Bryn Clwyd
2 Aiden, Ysgol Bryn Clwyd
3 Chaise, Ysgol Bryn Clwyd

**Blwyddyn 3 a 4:**

1 Megan, Ysgol Gellifor,
2 Lily, Ysgol Bryn Clwyd
3 Rhiannon, Ysgol Gellifor

**Blwyddyn 5 a 6:**

1 Hannah, Ysgol Bryn Clwyd
2 Demi, Ysgol Bryn Clwyd
3 Cara, Ysgol Bryn Clwyd

**CERDDORIAETH LEISIOL**

**Blwyddyn Derbyn ac iau:**

1 Medi Angharad Evans, Ysgol Penbarras
3 Magi Jones, Ysgol Twm o'r Nant

**Blwyddyn 1 a 2:**

2 Loti Jones, Ysgol Twm o'r Nant
3 Iago Edwards, Ysgol Penbarras

**Blwyddyn 3 a 4:**

2 Mabon Dafydd, Ysgol Penbarras

**Blwyddyn 5 a 6:**

1 Steffan Rhys Davies, Ysgol Bro Cinmeirch

**Blwyddyn 7 – 9:**

2 Anna Thomas, Caerdydd
3 Nest Emlyn, Ysgol Brynhyfryd

**Blwyddyn 7 – 9: Cân Werin**

2 Nest Emlyn, Ysgol Brynhyfryd

**Blwyddyn 7– 9:** Can Ysgafn neu o sioe gerdd

1 Anna Thomas, Caerdydd

**Blwyddyn 10 – 13: Cyflwyniad a gymer rhwng 5 a 8 munud un neu gyfuniad Unawd clasurol, alaw werin , cerdd dant neu gân allan o sioe gerdd**

2 Beca Evans, Ysgol Brynhyfryd

**Blwyddyn 7 – 13: Deuawd**

1. Beth a Nest, Ysgol Brynhyfryd

**OFFERYNNOL**

**Blwyddyn 7 – 9: Unawd**

2 Anna Jên, Ysgol Brynhyfryd
3 Nest Emlyn,Ysgol Brynhyfryd

**CERDD DANT**

**Blwyddyn 6 ac iau**

1 Mabon, Ysgol Pen Barras
2 Nansi Davies, Ysgol Bro Cinmeirch

**Blwyddyn 7 – 9:**

2 Nest Emlyn, Ysgol Brynhyfryd
3 Anna Thomas, Caerdydd

**ARLUNIO**

Blwyddyn Derbyn ac iau:

2 Medi Angharad Evans, Ysgol Penbarras

**Blwyddyn 3 a 4:**

1 Ethan, Ysgol Bryn Clwyd

**Blwyddyn 7 – 13:**

1 Elinor Griffith, Ysgol Brynhyfryd
2 Efa Roberts, Ysgol Brynhyfryd
3 Beth Evans, Ysgol Brynhyfryd

**GRAFFEG GYFRIFIADUROL**

**Blwyddyn 2 ac iau:**

3 Penri Samuel Williams, Llandyrnog

**Blwyddyn 7 – 13:**

1 Anna Jen, Ysgol Brynhyfryd
2 Beth Evans, Ysgol Brynhyfryd
3 Efa Roberts, Ysgol Brynhyfryd

# Eisteddfod Llandyrnog



*Cadeirio Elinor Griffith. O’r chwith: Menai Williams, beirniad; Beca Evans, cân y coroni; Margaret Lloyd, arweinydd y seremoni; Efa Roberts ac Anna Griffith, y cyrchwyr. Cafodd Anna dipyn o sioc i weld ei chwaer yn codi!*

*Llefaru Bl. 5 a 6:*

*Steffan Davies, 2il, a Mati Nel,1af.*







*Llefaru Bl. 3 a 4: Mabon Dafydd, 2il; Nansi Davies, 1af; Cordelia, 3ydd.*

# Capel y Dyffryn

***Gwasanaeth Diolchgarwch***

Bore Sul 9 Hydref, cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch y plant bendithiol iawn yn y Festri. Roedd y plant yng ngofal y rhannau dechreuol, ac yna cafwyd cyflwyniad am waith Cymorth Cristnogol gan y Parch Andras Iago. Derbyniwyd nwyddau a rhoddion tuag at y Banc Bwyd lleol. Roedd Nia, Dregoch wedi sicrhau fod y festri wedi’i haddurno’n hyfryd â blodau.

***Y Gymdeithas***

Nos Lun 10 Hydref cafwyd Swper Agoriadol y Gymdeithas am y tymor 2022-23. Braf oedd gweld festri llawn yn mwynhau swper blasus dros ben gyda Ceri, Ffiona, Iona a Veronica yn gofalu am y gweini.

Cyflwynwyd y ddwy chwaer Beca ac Awen Hogg, yr Wyddgrug gan Bryn Davies (*Cadeirydd*). Cafwyd datganiadau hyfryd ganddyn nhw gyda Lowri, eu mam, yn cyfeilio. Diolchwyd i bawb am noson hyfryd gan Rhys Davies (*Is-gadeirydd*).



***Gwasanaethau mis Tachwedd***

| | | |
|---|---|---|
| 6 Tachwedd | 9.45 | Parch Dewi Morris |
| 13 Tachwedd | 10.45 | Eglwys – Sul y Cofio |
| 20 Tachwedd | 9.45 | Parch Andras Iago |

# Tuesday Club

Mary Steel o Fodfari ddaeth aton ni yng nghyfarfod mis Hydref i sôn am 'anturiaethau yn y cyfryngau'.

Clywsom rai o'i sgyrsiau ar gyfer *Pause for Thought* ar BBC Radio 2, gan roi'r cefndir iddyn nhw. Roedd y testunau'n trafod delio â marwolaeth sydyn cyd-weithiwr oherwydd damwain ar y ffordd, ymddeol fel athrawes, disgyblion yn gadael yr ysgol a'u dyfodol, profedigaeth yn y teulu, a gwneud y gorau o'r hyn sydd gennych.

Cafodd Mary ei gwahodd unwaith, ar fyr rybudd, i gyflwyno *Thought for the Day* yn fyw ar BBC Radio 4 o ddarllediad allanol yn Llandudno. Roedd hyn yn brofiad anodd iawn ac roedd hi'n falch na chafodd eu gwahodd eto!

Dangosodd Mary benawdau mewn papurau newydd amdani, yn sgil sylw dadleuol ganddi mewn cynhadledd i brifathrawon. Dangosodd y digwyddiad iddi pa mor ddidostur mae'r wasg yn gallu bod. Yn ffodus, cafodd gefnogaeth lwyr ei chyd-weithwyr, a'i disgyblion a'u rhieni.

Profiad mwy dymunol oedd cymryd rhan mewn rhaglen deledu gyda Melvyn Bragg – dyn hyfryd, meddai Mary! Testun y gyfres oedd effaith ffydd ar waith pobl. Er ei bod yn betrus i dderbyn y gwahoddiad i ddechrau, roedd yn brofiad gwerth chweil.



Diolchwyd i Mary am ei sgwrs ddiddorol a dymunwyd yn dda i Gwilym, yn gwella ar ôl ei lawdriniaeth. Rhoddodd Anwen, y trefnydd, groeso i aelod newydd i'n plith, Myfanwy Williams, a dymunodd ben-blwydd hapus i Chris Palin yn 80 oed.

Bydd cyfarfod nesaf y clwb ddydd Mercher, 16 Tachwedd am 2 o'r gloch yn yr Ystafelloedd Coco – croeso cynnes i aelodau newydd.

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*

## Oriau agor Swyddfa'r Post

**Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener**

**9am–12pm, 2pm–5pm**

**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**

**01824 790310**


*hgweb designs*

rydym ni'n creu... we create...

**gwefannau – websites!**

www.hgwebdesigns.co.uk

01678 520882
07984 511164

Gwefannau proffesiynol, dwyieithog ar gyfer busnesau, sefydliadau ac ysgolion lleol

Affordable, bilingual and professional websites for local business, organisations and schools

**hannah@hgwebdesigns.co.uk**

# Llys Awelon, Rhuthun




Mae Grŵp Cynefin newydd ddechrau ar gynllun £12.2 miliwn i ehangu Llys Awelon, Rhuthun.

Bu Shan Lloyd Williams, Prif Weithredwr Grŵp Cynefin (ar y dde ym mlaen y llun); Graham Boase, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych (chwith); Wil Jones, Cyfarwyddwr Read Construction (ail o'r dde), a swyddogion allweddol eraill yn nodi dechrau'r adeiladu ar y safle.

Mae'r prosiect yn golygu ailddatblygu'r safle yn llwyr i greu cynllun modern, carbon isel, pwrpasol. Bydd yn cynnig 35 o fflatiau un a dwy ystafell wely yn ychwanegol i'r 21 fflat presennol.

Mae'r prosiect yn cynnwys gweithio ochr yn ochr â'r adeilad presennol, gan achosi cyn lleied o aflonyddwch â phosibl i'r preswylwyr a'r staff, ac yn y pen draw, diweddaru'r adeilad hwnnw i'r un safon uchel.

Mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng Grŵp Cynefin, Cyngor Sir Ddinbych, a Llywodraeth Cymru.

Mae'r datblygiad yn dilyn agor cynllun tai gofal ychwanegol Awel y Dyffryn yn Ninbych ddechrau'r flwyddyn. Os hoffech chi, perthynas neu gyfaill wybod mwy am y fflatiau sydd ar gael yn Llys Awelon neu Awel y Dyffryn, rŵan neu yn y dyfodol, cysylltwch â Grŵp Cynefin ar 0300 111 2122.

*Yn y grŵp yn y cefndir, mae dau o drigolion Llandyrnog: Bryn Davies, rheolwr datblygu Grŵp Cynefin (ail o'r chwith), ac Arwyn Evans, pennaeth datblygu (trydydd o'r chwith).*

**Rhifau Ffôn Defnyddiol**
Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

## Cystadleuaeth llunio poster

Mae problem fawr yn y pentre oherwydd nad yw pobl yn codi baw cŵn. Mae'n beryglus i iechyd yn ogystal â bod yn amhleserus iawn. Felly, mae gwahoddiad i blant oed ysgol gynradd lunio poster i annog pobl i godi baw cŵn. Rhowch eich poster yn y blwch yn swyddfa'r post erbyn 1 Rhagfyr, gyda'ch oed a'ch enw arno.

**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**
james.davies.mp@parliament.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920
Swyddfa San Steffan: 0207 2194606

# Dewch i gyfarfod â'ch Cynghorwyr Cymuned

Rydym yn dechrau cyfres o erthyglau i gyflwyno'r 11 aelod o Gyngor Cymuned Llandyrnog. Ar ôl yr etholiad ym mis Mai roedd dau wyneb newydd i'w hychwanegu at y rhai sydd wedi gwasanaethu'r gymuned hon ers rhai blynyddoedd, felly roeddem yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol troi'r chwyddwydr ar bob un o'r cynghorwyr fel eich bod yn gwybod pwy yw eich cynrychiolwyr. Dechreuwn gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor Cymuned ar y dudalen nesaf.

**Ruth Griffith, Cadeirydd**



Cefais fy ngeni yn Sir Gaer ond fe es i'r ysgol yng Ngogledd Cymru, priodi Cymro ac ymgartrefu yma. Rydym wedi byw yn ein tŷ yn Llandyrnog ers 51 mlynedd, a dyna ble magwyd ein dwy ferch. Buan iawn y daethon ni yn rhan o fywyd yr eglwys a dechreuais gwmni Geidiau i dderbyn Brownies Olga Evans. Treuliais fy mywyd gwaith yn y gwasanaeth prydau ysgol.

Fe ddes i'n Gynghorydd Cymuned ar awgrym tad Gwilym Evans, ymhell dros 40 mlynedd yn ôl. Roedd aelodau ymroddedig y cyngor ar y pryd yn delio â holl faterion y cyngor gyda chymaint o gydymdeimlad, a gwnaeth hyn gryn argraff arna i. Hefyd cefais gymaint o wybodaeth leol ganddyn nhw. Rwyf wedi bod yn Gadeirydd ac yn Is-gadeirydd fwy nag unwaith dros fy 40 mlynedd a mwy fel cynghorydd.

Rwy'n ymwneud yn llawn â bywyd y pentref ac yn mwynhau'r heriau sy'n ein hwynebu. Dydw i erioed wedi ymladd etholiad, sy'n siomedig i mi, oherwydd hoffwn i weld mwy o bobl yn dod ymlaen i fod yn un o'r 11 aelod o Gyngor Cymuned Llandyrnog. Mae gen i lawer o ddiddordebau gwirfoddol eraill sydd, yn fy marn i, yn helpu i ddod â safbwynt ehangach i agweddau ar fywyd fel Cynghorydd Cymuned.

**Gwen Butler, is-gadeirydd**



Cefais fy ngeni yn Southend-on-Sea ac es i'r ysgol gynradd yno nes oeddwn i'n 8 oed, pan symudodd y teulu yn ôl i Gymru. Es i wedyn i ysgol Rhewl a Brynhyfryd cyn mynd i'r coleg yn Wrecsam. Rwyf wedi byw yn Llangwyfan ers bron i 30 mlynedd.

Roeddwn yn gweithio yn Adran Gynllunio Cyngor Dosbarth Glyndŵr ac yna yng Nghyngor Sir Ddinbych cyn ymddeol yn gynnar yn 2014. Roeddwn i'n gweld eisiau'r gallu i helpu pobl, gan fy mod mor gyfarwydd â delio â'r cyhoedd. Awgrymodd Merfyn Parry fy mod yn ceisio am un o'r seddi gwag ar y Cyngor Cymuned.

Erbyn hyn rwy'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar grŵp cyswllt cymunedol Parc Highfield a Chyfeillion Ysbyty Rhuthun. Rwyf wedi bod yn helpu gyda'r caffi ym Mhafiliwn Cae Nant ac yn Gadeirydd Pwyllgor Neuadd y Pentref. Rwyf hefyd yn un o gydlynwyr y *Llais*.

Rwy'n arsylwr ar gyfer Sefydliad y Modurwyr Uwchraddol ac yn angerddol am ddiogelwch ar y ffyrdd, a sgiliau gyrru a marchogaeth da. Mewn cyferbyniad llwyr â hyn, rwy'n amddiffynnol iawn o fyd natur, bywyd gwyllt a'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn arbennig. Rydyn ni mor ffodus i gael byw yma – mae'r heddwch, y machludoedd, yr anifeiliaid a'r adar i gyd yn codi fy ysbryd. Gobeithiaf y bydd y cenedlaethau i ddod yn eu gwerthfawrogi.

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Hydref Cyngor Cymuned Llandyrnog

- Nodwyd nad oedd golau ym maes parcio Maes Llan wedi'i gysylltu eto.
- Cafodd yr arwydd 'Ildiwch' ger Capel Isa ei drwsio ar unwaith.
- Mae baw cŵn yn dal i fod yn broblem a gofynnwyd i'r ysgol baratoi poster. Bydd y goreuon yn cael eu hargraffu a'u gosod mewn mannau amlwg o amgylch y pentref.
- Eitem 'Adnabod Eich Cynghorydd' ar gyfer y *Llais* – yr un gyntaf i'w chynnwys yn rhifyn Tachwedd a'r lleill yn y rhifynnau dilynol.
- Nid oedd y Swyddog Heddlu Cymunedol yn bresennol. Yn wyneb rhai digwyddiadau diweddar, gobeithir ailsefydlu'r berthynas.
- Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cael gwybod bod pryder am gyflwr rhai tai gwag yn y pentref ac wedi paratoi adroddiad cynhwysfawr a chynllun gweithredu.
- Hyfforddiant digidol – mae gan yr Ystafelloedd Coco fand eang am ddim i'r gymuned, felly penderfynwyd holi a oes diddordeb mewn hyfforddiant digidol.
- Cafwyd cadarnhad gan Gyngor Sir Ddinbych y bydd swm o tua £9,000 ar gael ar ôl cwblhau rhan o Erw Isaf yn lle offer chwarae. Dim ond wedyn y gall y Cyngor Cymuned wneud cais i'r Cyngor Sir am rywfaint o'r arian i wella'r maes chwarae presennol.
- Penderfynwyd cynnwys swm o £1,000 yn y gyllideb fel cyfraniad tuag at arolwg anghenion cymunedol.
- Mae'r is-grŵp cyllid wedi cyfarfod i baratoi cyllideb ddrafft – yn wyneb yr hinsawdd ariannol bresennol, bydd unrhyw ddiffyg yn cael ei gymryd o'r cronfeydd wrth gefn.
- Cafwyd adroddiad llafar o gyfarfod diweddar Grŵp Cyswllt MHC ac roedd rhai o'r materion a drafodwyd fel a ganlyn:
  - Mae MHC yn ymwybodol o lygredd golau ac yn edrych ar fesurau lliniaru.
  - Mae danfon parseli i dai anghywir yn dal i fod yn broblem – mae llawer o dai yr ardal yn rhannu'r un cod post.
  - Mae gweithwyr cymorth ac eraill sy'n siarad Cymraeg wedi cael cortynnau gwddf i wneud trigolion dwyieithog yn fwy ymwybodol o'r gwasanaeth dwyieithog.
  - Mae digwyddiadau'r dyfodol yn cynnwys digwyddiad Calan Gaeaf, tân gwyllt tawel a gwasanaeth carolau Nadolig.
  - Mae ystadau MHC yn mynd i ystyried a ydyn nhw'n gallu cyfrannu at hysbysfwrdd ar gyfer Llangwyfan.
- Bydd y Cyngor Sir yn cael gwybod am dyllau yn y ffordd ger gefail Groes Isa a Ffordd Gales.
- Cafwyd cais llafar gan Glwb Pêl-droed Llandyrnog am finiau â chaeadau yng Nghae Nant yn dilyn problemau gyda gwylanod yn gwagio'r biniau ar ôl gemau. Awgrymwyd gyda dyledus barch y dylid gwagio'r biniau yn syth ar ôl y gêm a rhoi'r bagiau yn y biniau olwynion sydd â chaead. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn cadw golwg ar y sefyllfa.


